------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 25 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(257)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5713**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyfraniad economaidd diwydiant dur Cymru a'r miloedd o swyddi y mae'n eu cefnogi;

2. Yn gresynu at y ffaith bod y mewnforion tramor sy'n llifo i mewn i'r farchnad wedi creu sefyllfa anghyfartal; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig a fydd yn arwain at sefyllfa lle bydd pob proses gaffael llywodraeth mewn perthynas â barrau atgyfnerthu dur carbon yn bodloni safon cyrchu cyfrifol BES 6001.

Mae'r siarter dur cynaliadwy Prydeinig ar gael yma:

Dogfen Ategol (Saesneg yn unig)

**Cefnogir gan:**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Ann Jones (Dyffryn Clwyd)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Keith Davies (Llanelli)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

John Griffiths (Gorllewin Casnewydd)

Byron Davies (Gorllewin De Cymru)

Peter Black (Gorllewin De Cymru)

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5735 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd a photensial y diwydiannau creadigol i'n bywyd diwylliannol ac economi Cymru;

2. Yn gresynu at y diffyg eglurder y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig mewn perthynas â:

(a) dyfodol y Panel Diwydiannau Creadigol; a

(b) y camau nesaf o ran cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi ar gyfer y sector yn Nghynllun Cyflenwi'r Sectorau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw gynnydd yn y maes hwn yn dilyn Adroddiad Hargreaves;

b) amlinellu unrhyw ymchwil newydd sydd wedi cael ei gomisiynu mewn perthynas â'i strategaeth ar gyfer y sector diwydiannau creadigol; ac

c) esbonio sut y mae targedau ar gyfer buddsoddiad stiwdio Pinewood a'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau yn eu cyfanrwydd wedi cael eu gosod, a nodi manylion ynghylch pa mor llwyddiannus y mae'r buddsoddiadau hyn wedi bod yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae Cynllun Cyflenwi'r Sectorau ar gael yn:
http://gov.wales/docs/det/publications/130125deliveryplancy.pdf

Mae Adroddiad Hargreaves ar gael yn:
http://gov.wales/docs/det/publications/100324creativeindustriesrptcy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn croesawu pwysigrwydd datblygiadau fel Stiwdios y Bae yn Abertawe a datblygiad S4C yng Nghaerfyrddin i'r economïau lleol.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu isbwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

gweithio gyda darlledwyr a rhwydweithiau fel y BBC, C4, ITV ac S4C er mwyn cynyddu cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5733 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gwrthwynebu adleoli system arfau niwclear y DU i Gymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau yn nodi hyn i Lywodraeth y DU;

3. Yn gwrthwynebu adnewyddu neu newid y system Trident bresennol gan Lywodraeth y DU; a

4. Yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogi niwclear ledled y byd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble i leoli arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i beidio ag adnewyddu Trident yn ystod y tymor seneddol hwn o ganlyniad i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn mynnu hyn.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5734 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cadw lonydd gwyrdd yn wyrdd: gweithio i annog pobl i beidio â gyrru oddi ar y ffordd yng ngogledd Cymru

Bydd y ddadl hon yn ymdrin â'r effaith y mae'r weithgaredd hamdden newydd a phoblogaidd o yrru ar lonydd gwyrdd yn ei chael ar gefn gwlad gogledd Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Ebrill 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Mawrth 2015 i'w hateb ar 25 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dreial rheoli dalgylch Tawe? OAQ(4)0272(NR)

2. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch rheoliadau cynllunio mewn perthynas â chloddio glo brig? OAQ(4)0274(NR)

3. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dir wedi'i halogi? OAQ(4)0279(NR)**W**

4. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa wahaniaeth fydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei wneud o ran cryfhau cymunedau cynaliadwy? OAQ(4)0280(NR)

5. **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y potensial ynni ar raddfa fach sydd gan forlynnoedd llanw? OAQ(4)0286(NR)

6. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i reoli'r defnydd o faglau yng Nghymru? OAQ(4)0277(NR)

7. **Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar adfer tir halogedig? OAQ(4)0281(NR)

8. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl yr iaith Gymraeg yn y broses gynllunio? OAQ(4)0278(NR)**W**

9. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â rhywogaethau o blanhigion anfrodorol goresgynnol yng Nghymru? OAQ(4)0282(NR)

10. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd coetiroedd cymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0285(NR)

**11. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant llaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0271(NR)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach? OAQ(4)0283(NR)

**13. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn perthynas â galwadau ar gyfer moratoriwm ar ddatblygiadau glo brig yng Nghymru? OAQ(4)0284(NR)

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru? OAQ(4)0275(NR)

**15. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i hyrwyddo'r ymgais i gynhyrchu ynni ar raddfa fach? OAQ(4)0276(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Dechrau'n Deg? OAQ(4)0312(CTP)

**2. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0307(CTP)

**3. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0302(CTP)

**4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei hymweliad â chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf dwyrain Abertawe? OAQ(4)0298(CTP)

**5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Sut y mae'r Gweinidog yn mesur llwyddiant polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol? OAQ(4)0304(CTP)**W**

**6. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i fynd i'r afael â thlodi gwledig? OAQ(4)0310(CTP)**W**

**7. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni atgyweirio cymdeithasau tai? OAQ(4)0309(CTP)

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun buddsoddi i arbed? OAQ(4)0299(CTP)

**9. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi grwpiau cymunedol gwirfoddol? OAQ(4)0303(CTP)

**10. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2015? OAQ(4)0301(CTP)

**11. Keith Davies (Llanelli):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cyllideb ddiweddaraf y DU ar drechu tlodi yn Llanelli? OAQ(4)0311(CTP)**W**

**12. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i leihau tlodi yn Nhorfaen? OAQ(4)0308(CTP)

**13. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cymysgedd cryf o dai fforddiadwy yn bodoli ledled Cymru? OAQ(4)0306(CTP)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddiogelu asedau o werth cymunedol? OAQ(4)0300(CTP)